ADRODDIAD BLYNYDDOL AR SAFONAU'R GYMRAEG 2025-2026



LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Fformatau hygyrch

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni drwy:

ymholiadau@llaiscymru.org

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

Cynnwys

Rhagair	4
Pwy ydym ni	5
Safonau cyflenwi gwasanaethau	6
Safonau llunio polisïau	11
Safonau gweithredol	13
Safonau cadw cofnodion	19
Yr hyn rydym am ei wneud yn 2026–2027	22
Safonau cadw cofnodion	23
Cysylltu â ni	23

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2025–2026.

Dyma ein hail adroddiad blynyddol ac mae'n amlinellu'r cynnydd a wnaethom rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 o ran bodloni gofynion ein hysbysiad cydymffurfio, a gyhoeddwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gryfhau ein hymrwymiad i'r Gymraeg. Mae wedi'i wreiddio yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–2028, gyda ffocws clir ar wella ein ffyrdd o weithio, ein gwasanaethau a'n hadnoddau. Mae hyn wedi cynnwys gwella ein systemau fel bod staff yn gallu cyrchu a chofnodi dewis iaith yn haws, monitro galwadau ffôn Cymraeg am y tro cyntaf, cynyddu nifer y rolau lle mae angen sgiliau Cymraeg, a pharhau i gefnogi staff i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Rydym hefyd wedi parhau i wrando ar gymunedau Cymraeg ledled Cymru. Drwy ein gwaith ymgysylltu mewn digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd, rhannodd pobl eu profiadau o ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r hyn a glywsom wedi helpu i lunio datganiad sefyllfa newydd a gyhoeddwyd yn ystod haf 2026. Roedd hwn yn awgrymu camau gweithredu ar gyfer gwella profiadau pobl o gael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg.

Fel rhan o'n paratoadau ar gyfer yr adroddiad hwn, fe wnaethom gynnal hunanasesiad i edrych ar ein cynnydd o ran mabwysiadu dull gweithredu 'Cymraeg yn gyntaf' a chanfod cyfleoedd i wella ymhellach. Mae'r cynnydd a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn galonogol, ond rydym yn cydnabod mai proses barhaus ydy gwella.



Edrychwn ymlaen at barhau â'n gwaith gyda'r cyhoedd, ein staff a'n gwirfoddolwyr, partneriaid, grwpiau cymunedol a Chomisiynydd y Gymraeg i adeiladu ar ein llwyddiannau a chefnogi twf a hyfywedd y Gymraeg ledled Cymru.

Alyson Thomas, Prif Weithredwr

Pwy ydym ni

Llais ydym ni.

Rydym yn gorff cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu ein bod yn cael ein cyllid gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn cynrychioli eich barn ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan sicrhau ein bod yn gwrando ac yn gweithio gyda chyrff y GIG, Awdurdodau Lleol Cymru ac eraill i lunio a gwella gwasanaethau i bawb.

Mae gennym dîm cenedlaethol a 7 tîm rhanbarthol sy'n casglu eich profiadau. Maent yn cwmpasu'r canlynol:

- Caerdydd a Bro Morgannwg
- Cwm Taf Morgannwg
- Gwent
- Powys
- Castell-nedd, Port Talbot ac Abertawe
- Gogledd Cymru
- Gorllewin Cymru.

Er bod y Gymraeg yn cael ei goruchwylio gan ein Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Chyflawni, mae cyfrifoldeb ar holl gyfarwyddwyr Llais i sicrhau bod tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant wrth galon popeth a wnawn. Mae hyn yn cynnwys y Gymraeg.

Mae ein cydymffurfiaeth â'r safonau'n cael ei fonitro'n rheolaidd gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo drwy ein rhwydweithiau staff a gwirfoddolwyr mewnol, gyda chefnogaeth ein Pennaeth Tegwch, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Llesiant.

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Mae'r adran hon yn manylu ar ein cydymffurfiaeth â safonau 1–63.

Gohebiaeth ysgrifenedig (1–7)

Mae Llais yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu bob dydd. Mae ein papur pennawd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ochr yn ochr â'r Saesneg, ac mae ein llofnodion e-bost dwyieithog yn annog pobl i gysylltu â ni yn Gymraeg. Gall staff sy'n siarad Cymraeg hefyd arddangos bathodyn "Hapus i siarad Cymraeg" o fewn eu llofnod e-bost.

Er mwyn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, mae gan yr holl staff fynediad at feddalwedd Cysgliad, gan gynnwys gwiriwr gramadeg a sillafu 'Cysill' ac adnoddau geiriadur 'Cysgeir'.

Rydym wedi gwella ein system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan ei gwneud yn haws i staff ledled Cymru gael gafael ar ddewis iaith y bobl rydym yn eu cefnogi, a'r partneriaid rydym yn gweithio gyda nhw.





Cyfathrebu dros y ffôn (8–20)

Mae pob galwad yn cael ei hateb naill ai yn Gymraeg (ar gyfer y rhai sy'n dewis yr opsiwn hwn) neu gyda chyfarchiad dwyieithog.
Nid oes gennym ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer galwadau ffôn. Er nad oeddem yn gallu monitro nifer y galwadau Cymraeg pan gyhoeddwyd ein hysbysiad cydymffurfio oherwydd cyfyngiadau cadw data gyda'n darparwr blaenorol, mae newid darparwr diweddar yn golygu ein bod wedi gallu olrhain a monitro nifer y galwadau Cymraeg a gawsom yn 2025–2026.
Ffoniodd dros 400 o bobl ein llinell gwasanaeth Cymraeg, gyda'r ffigur hwnnw'n debygol o fod yn llawer uwch gan fod toriad wedi bod yn y gwasanaeth olrhain rhwng mis Hydref 2025 a mis Chwefror 2026.

Cyfarfodydd a digwyddiadau (21–33)

Ar gyfer cyfarfodydd ar-lein, mae'r holl staff yn defnyddio cefndir rhithiol dwyieithog safonol Llais. Mae gan staff sy'n gallu siarad Cymraeg hefyd fynediad at gefndir ychwanegol, sy'n cynnwys y neges "Hapus i siarad Cymraeg" ochr yn ochr â'r brandio dwyieithog safonol.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i ddarparu canllawiau ar wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg. Mae'r canllawiau hyn yn nodi prosesau ac amserlenni clir y mae'n rhaid i'r holl staff eu dilyn wrth drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau.

Mae ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys gwahoddiadau dwyieithog a darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein, wedi'u hymgorffori yn ein proses Asesiad Effaith Integredig. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod gofynion o ran y Gymraeg yn cael eu hystyried yn gynnar wrth gynllunio gweithgareddau, cyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu.

Cynhyrchu deunyddiau a chyhoeddi dogfennau (34–38)

Mae unrhyw ddeunyddiau neu ddogfennau cyhoeddedig a gynhyrchwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
Mae hyn yn cynnwys ein cyfres o bodlediadau a gafodd ei recordio ar ddechrau'r flwyddyn, a'r deunyddiau amlgyfrwng rydym yn eu cynhyrchu.



Gwefan, cyfryngau cymdeithasol ac apiau (35–46)

Mae ein gwefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu ein gwefan a ddechreuodd ym mis Chwefror 2026, rydym wedi ei gwneud yn haws fyth i bobl gael mynediad i'r safle Gymraeg.

Bydd y wefan newydd yn cael ei lansio yn hydref 2026, a bydd yn cynnwys bar offer sy'n dilyn ymwelwyr i lawr y dudalen er mwyn iddynt allu newid iaith unrhyw bryd. Dim ond ar frig y dudalen yr oedd hyn ar gael yn y gorffennol.

Fe wnaethom lansio platfform podlediadau newydd ym mis Mai 2026 ac mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae cyfranwyr i'r gyfres yn cynnwys Osian Gwion Llywelyn, Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n trafod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg.

Does gennym ni ddim apiau Llais.

Mae gennym ni sianeli dwyieithog ar LinkedIn, TikTok a YouTube, ac rydym yn postio yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân ar y cyfrifon hynny. Ar Facebook, mae gennym 8 sianel Gymraeg ac 8 sianel Saesneg. Mae'r rhain yn cynnwys ein tîm cenedlaethol a 7 tîm rhanbarthol ledled Cymru.

Mae ein sianeli dwyieithog ar LinkedIn, TikTok a YouTube wedi **tyfu 93%** dros y flwyddyn ddiwethaf.



Cawsom 170 o ddilynwyr newydd ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n gynnydd **o 37%.**

Mae twf parhaus sianeli cyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg yn adlewyrchu'r ffaith fod cynnwys Cymraeg yn mynd yn fwyfwy amlwg, ac maent yn darparu llwyfan pwysig ar gyfer ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg am ein gwaith.

Arwyddion (47–49)

Mae arwyddion yr holl adeiladau yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn cael lle amlwg drwy ymddangos yn gyntaf.

Gwasanaethau derbynfa (50–53)

Ar ôl adleoli nifer o swyddfeydd ym mis Mawrth 2025, mae gwasanaeth derbynfa mewn 3 o'n swyddfeydd, a'r rheini'n cael eu rheoli gan y darparwyr adeiladau erbyn hyn. Mae pob un o'r 3 gwasanaeth derbynfa yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Ystyriwyd hyn fel rhan o'r Asesiadau Effaith Integredig a gynhaliwyd cyn i'r gwaith adleoli ddigwydd.





Contractau (57–59)

Rydym yn cyhoeddi pob gwahoddiad i dendro am gontract yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac rydym yn croesawu ymatebion yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gwasanaeth Cymraeg a manylion corfforaethol (60–62)

Mae ein henw yn Gymraeg. Mae ein logo yn dangos ein neges yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn cael ei darllen yn gyntaf.

Cyrsiau a gynigir gan Llais (63)

Nid yw Llais yn darparu cyrsiau addysgol ar hyn o bryd.

Mae'r holl fodiwlau e-ddysgu sydd ar gael drwy ein system Cofnodion Electronig Staff (ESR) ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd unrhyw fodiwlau hyfforddi a ddatblygir neu a gomisiynir yn fewnol gan Llais yn y dyfodol hefyd ar gael yn y ddwy iaith.

Safonau llunio polisïau

Mae'r adran hon yn manylu ar ein cydymffurfiaeth â safonau 69–77.

Polisïau (69–71)

Pan fyddwn yn cyfeirio at bolisïau, rydym yn defnyddio'r term yn fras i gynnwys y gweithgareddau a'r penderfyniadau hynny sy'n effeithio ar bobl.

Cefnogir pob polisi newydd gan Asesiad Effaith Integredig, sy'n cynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg. Bydd asesiadau'n cael eu hadolygu pryd bynnag y bydd polisïau'n cael eu diweddaru, ac yn cael eu hadnewyddu pan fyddant yn hŷn na 4 oed.

Rydym yn parhau i gryfhau'r defnydd o asesiadau effaith ar draws y sefydliad. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym wedi diweddaru'r canllawiau yn ein pecyn cymorth er mwyn i'r Gymraeg gael ei hystyried yn llawn ac yn gyson, gan gydnabod bod dyletswyddau iaith Gymraeg yn ymestyn y tu hwnt i'r rhai sy'n dod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae ein hasesiadau'n ystyried y 9 nodwedd warchodedig a'r Gymraeg, a hefyd anfantais economaidd-gymdeithasol, anghydraddoldebau iechyd, cynhwysiant digidol, gofalwyr, ardaloedd gwledig a'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Ymgynghoriadau ac ymchwil (72–77)

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl yn gallu ymgysylltu â ni yn yr iaith o'u dewis. Boed drwy ein sesiynau Llais lleol, ein sesiynau ar-lein neu weithgareddau ymgysylltu eraill, rydym yn ei gwneud hi'n hawdd i bobl rannu eu profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae hyn yn cefnogi ein cydymffurfiaeth â safonau 21–46.

Gan adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd drwy ein gwaith gyda Mwy na Geiriau yn 2024–25, rydym wedi parhau i ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith am eu profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae adborth a gasglwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd wedi ein helpu i adnabod cyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.

Mae'r hyn a ddysgwyd wedi cyfrannu at ddatblygu datganiad sefyllfa, sy'n cynnwys camau gweithredu ymarferol a awgrymir ar gyfer cyrff cyhoeddus.

Rydym yn sicrhau bod gofynion o ran y Gymraeg yn cael eu hystyried ar ddechrau pob proses comisiynu ymchwil. Disgwylir i sefydliadau sy'n tendro am gontractau ymchwil ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog, gan gynnwys deunyddiau wedi'u cyfieithu a chymorth dehongli lle bo angen.

Mae'r ymrwymiad hwn yn parhau hyd at y cam cyhoeddi, gyda holl ddatganiadau sefyllfa, ymatebion i ymgynghoriadau, ac adroddiadau Llais yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Safonau gweithredol

Mae'r adran hon yn manylu ar ein cydymffurfiaeth â safonau 79–105 a 111–113.

Hybu'r Gymraeg (79)

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom ddefnyddio ein rôl fel llais annibynnol cenedlaethol ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i hyrwyddo pwysigrwydd cael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg. Drwy ymgysylltu â chymunedau Cymraeg ledled Cymru, gan gynnwys yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd, fe wnaethom gasglu tystiolaeth am brofiadau pobl o gael gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'r sylwadau hyn sy'n seiliedig ar ddysgu yn nodi camau ymarferol y gall sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol eu cymryd i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a gwella profiadau pobl.

Mae gennym bolisi iaith Gymraeg, sy'n nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau ar bob lefel yn Llais sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'r egwyddorion polisi rydym yn eu defnyddio fel sail i'n Cynnig Cymraeg.

Mae'r polisi hwn wrthi'n cael ei adolygu fel rhan o'n hadolygiad ehangach o bolisïau'r sefydliad.

Eleni, daeth ein Gweithgor Iaith Gymraeg, Grŵp Gweithredol Iaith Gymraeg, yn rhan o'n grŵp tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ehangach, sef Llais Pawb. Gwnaed y newid hwn i gryfhau'r ffordd rydym yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws y sefydliad ac i sicrhau bod ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu hadlewyrchu ochr yn ochr â'n hymrwymiad ehangach i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant.





Fel yr amlinellir yn y safonau cyflenwi gwasanaethau, mae staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn cael eu hannog i arddangos logo "Hapus i siarad Cymraeg" yn eu llofnodion e-bost ac i ddefnyddio'r cefndiroedd Cymraeg cysylltiedig yn ystod cyfarfodydd ar-lein.

Gall staff mewn adeiladau sector cyhoeddus ddewis gwisgo laniardiau sy'n dangos eu bod yn hapus i gyfathrebu yn Gymraeg. Rydym hefyd yn darparu laniardiau laith Gwaith i staff sy'n gweithio mewn swyddfeydd eraill.

Mae rhagor o wybodaeth am staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom hefyd ymuno â Bwrdd Cynghori Mwy na Geiriau. Mae'r Bwrdd yn monitro ac yn craffu ar gynnydd yn erbyn cynllun Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru. Nod y cynllun yw gwella gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Prosesau a gweithdrefnau mewnol (80–88)

Mae unrhyw ffurflenni neu ddogfennau mewnol sy'n dod o dan Safon 81 ar gael i staff yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae gennym lai o reolaeth uniongyrchol dros absenoldeb a chofnodion gwyliau blynyddol, gan fod y rhain yn cael eu rheoli drwy'r system Cofnodion Electronig Staff (ESR). Un o gydwasanaethau'r GIG yw ESR, a chyfrifoldeb y GIG yw cynnal a diweddaru'r system yn unol â'i Hysbysiad Cydymffurfio ei hun.

Gellir cael mynediad at borth ESR yn Gymraeg, a gellir cyflwyno ceisiadau am absenoldeb a gwyliau a'u gweld yn Gymraeg pan ddewisir yr iaith berthnasol.

Mae'r holl bolisïau presennol sy'n dod o dan Safon 82 ar gael yn Gymraeg. Yn ogystal, mae'r holl bolisïau newydd a ddatblygir gan Llais yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg, ni waeth a ydynt yn dod o fewn cwmpas y Safon hon ai peidio.

Mae ein polisi Parch a Datrys, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn egluro sut gall gweithwyr wneud cwyn neu fynegi pryderon yn Gymraeg. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir y gall gweithwyr ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn a chymryd rhan mewn cyfarfodydd, trafodaethau a chanlyniadau cysylltiedig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r polisi'n cadarnhau ymhellach y bydd gweithwyr yn cael gwybod am yr hawliau hyn ar ddechrau unrhyw achos.

Meddalwedd Cymraeg (89)

Rydym yn parhau i gefnogi staff i ddefnyddio offer Cymraeg drwy ddarparu mynediad at Cysgliad ar draws y sefydliad.

Rydym wedi datblygu canllawiau ategol, wedi ychwanegu dolenni clir i'r feddalwedd ar ein tudalen fewnrwyd Gymraeg, ac wedi darparu arddangosiad ymarferol mewn cyfarfod i'r holl staff. Mae'r recordiad yn dal ar gael er mwyn i bob cydweithiwr allu elwa o'r canllawiau.

Mewnrwyd Llais (90–96)

Mae holl elfennau a thudalennau ein safle mewnrwyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae gennym brosesau ar waith i sicrhau bod cynnwys Cymraeg a Saesneg yn cael ei ddiweddaru ar yr un pryd pan wneir newidiadau i'r fewnrwyd. Mae gan bob tudalen weinyddwr dynodedig sy'n cael ei annog i adolygu cynnwys yn rheolaidd. Mae newidiadau a wneir i dudalennau Saesneg hefyd yn sbarduno hysbysiad i'n blwch post cyfieithu, gan roi sicrwydd ychwanegol bod cynnwys Cymraeg yn cael ei ddiweddaru'n brydlon.

Mae ein tudalen Gymraeg bwrpasol ar y fewnrwyd yn rhoi mynediad at amrywiaeth o adnoddau i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan gynnwys recordiadau gan Gomisiynydd y Gymraeg, adnoddau dysgu am ddim, canllawiau ymarferol a gwybodaeth am gyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg.

Hyfforddiant mewnol (97–98)

Mae sesiynau cynefino i weithwyr newydd wrthi'n cael eu darparu ar lefel tîm. Pan fydd aelod newydd o staff yn dymuno cael ei sesiwn gynefino yn Gymraeg, rydym yn gwneud pob ymdrech i drefnu hyn gyda chydweithiwr sy'n siarad Cymraeg, naill ai yn ei dîm ei hun neu mewn rhan arall o'r sefydliad. Lle nad yw hyn yn bosibl, darperir cymorth cyfieithu i sicrhau bod staff yn gallu cael eu sesiwn gynefino yn yr iaith o'u dewis.

Mae'r holl gyrsiau cynefino e-ddysgu gorfodol ar gael yn Gymraeg drwy lwyfan dysgu'r GIG.

Mae'r gwaith o adolygu eich dull cynefino, er mwyn creu profiad mwy cyson ar draws Llais, wedi cymryd ychydig mwy o amser na'r disgwyl. Rydym nawr yn gobeithio cwblhau hyn yn 2026–2027.

Mae hyn yn cynnwys gweld sut gallwn ni hyrwyddo'r Gymraeg yn well o'r cychwyn cyntaf, gan sicrhau bod staff newydd yn gwybod ble i gael gafael ar wybodaeth, cymorth, cyfleoedd dysgu a rhwydweithiau a all eu helpu i ymgysylltu â'r Gymraeg a'i defnyddio yn eu rôl.

Dysgu Cymraeg 2025–2026 (99–103)

Mae sgiliau Cymraeg yn rhan o'n matrics sgiliau, ac anogir staff i ddatblygu eu sgiliau yn y maes hwn. Rydym yn cydnabod bod cyfle i hyrwyddo hyn yn fwy gweithredol a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'n cynlluniau i adolygu a chryfhau ein proses gwerthuso perfformiad, gan helpu i gefnogi datblygiad yr unigolyn a thwf y sefydliad.



Anogir staff i nodi cyfleoedd dysgu sy'n diwallu eu hanghenion nhw orau, naill ai drwy adnoddau sydd ar gael ar ein tudalen fewnrwyd Gymraeg neu drwy ddarparwyr dysgu eraill. Caiff ceisiadau eu trafod gyda rheolwyr llinell a, lle bo'n briodol, eu cymeradwyo gan dîm y Gweithlu.

Mae cyfleoedd i ddysgu Cymraeg sy'n cael eu hariannu ar gael i'r holl gydweithwyr a gwirfoddolwyr drwy Cymraeg Gwaith (dysgucymraeg.cymru).

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyfeiriwyd ymholiadau staff ynghylch hyfforddiant iaith Gymraeg at Cymraeg Gwaith, a darparwyd cymorth ychwanegol i Aelod o'r Bwrdd drwy gwrs Cymraeg Gwaith ar-lein dan arweiniad tiwtor a thanysgrifiad i Say Something in Welsh.

Yn ystod y broses recriwtio, trefnwyd i gefnogi ymgeiswyr a oedd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfweliad. Ar gyfer y swydd Cyfieithydd Cymraeg, gwahoddwyd ymgeiswyr i ateb cwestiynau yn Gymraeg gydag aelod o'r panel a oedd yn siarad Cymraeg.

Rydym wedi cynnwys adran Gymraeg yn rheolaidd yn "Y Gair", sef ein cylchlythyr misol i staff a gwirfoddolwyr. Mae hyn wedi ymrwymo i ddathlu'r Gymraeg.

Fe wnaethom ddathlu Diwrnod Shwmae Su'mae ym mis Hydref 2025, ac ym mis Tachwedd 2025 fe wnaethom hyrwyddo Defnyddia dy Gymraeg, sef ymgyrch flynyddol sy'n cael ei chynnal rhwng 24 Tachwedd a 5 Rhagfyr ac sy'n rhoi cyfle i sefydliadau hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg.

Nod yr ymgyrch yw annog pawb i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt, yn eu bywydau bob dydd – boed yn y gwaith, gartref, yn yr ysgol neu mewn caffi, dros y ffôn, drwy neges destun, neu wyneb yn wyneb.

Eleni, fe wnaethom greu canllaw ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd Teams, a'i rannu â staff. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r ddogfen hon ar sail adborth ac anghenion y sefydliad.

Staff sy'n siarad Cymraeg (104–105)

Rydym yn annog staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg i wneud hyn yn weladwy i gydweithwyr a'r cyhoedd drwy ddefnyddio'r neges "Hapus i siarad Cymraeg" mewn llofnodion e-bost a chefndiroedd sy'n benodol i'r Gymraeg ar gyfer cyfarfodydd ar-lein, fel yr amlinellir yn adran safonau darparu gwasanaethau'r adroddiad hwn.

Ategir ein negeseuon e-bost gan dempledi dwyieithog, gyda chynnwys Cymraeg yn ymddangos cyn y Saesneg. Mae'r dull hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn ein negeseuon 'allan o'r swyddfa' safonol, lle mae'r fersiwn Gymraeg yn cael ei harddangos yn gyntaf.

Mae staff sy'n mynychu digwyddiadau ymgysylltu yn gallu defnyddio laniardiau 'laith Gwaith' i helpu i adnabod siaradwyr Cymraeg. Ar sail adborth gan staff, rydym wrthi'n datblygu laniard 'laith Gwaith a Llais' ar y cyd i symleiddio eu defnydd a'u gwneud yn fwy amlwg.



Safonau cadw cofnodion

Mae'r adran hon yn manylu ar ein cydymffurfiaeth â safonau 106–109 a 115–121.

Llenwi swyddi newydd a swyddi gwag (106–109 a 117)

swyddi newydd a gwag. Mae'r tabl isod yn dangos sawl swydd a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â'r categori iaith Gymraeg a neilltuwyd i bob swydd: Cymraeg yn hanfodol, Cymraeg yn ddymunol, neu angen dysgu Cymraeg.

Cyfanswm nifer y swyddi	Nifer y swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol	Nifer y swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol	Nifer y swydd lle mae angen dysgu Cymraeg
20	8	12	5

Yn ystod 2025–26, hysbysebwyd 8 swydd o dan y categori 'Cymraeg yn hanfodol', o'i gymharu â dim un yn y flwyddyn flaenorol, gan ddangos ein ffocws cynyddol ar sicrhau bod sgiliau Cymraeg ar gael lle mae eu hangen.

Roedd 'Cymraeg yn ddymunol' yn parhau i fod yn ofyniad pwysig, gyda 12 swydd yn perthyn i'r categori hwn. Fe wnaethom hefyd gyflwyno'r categori 'angen dysgu Cymraeg' ar gyfer 5 swydd, gan ein helpu i ddenu ymgeiswyr talentog a'u cefnogi i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg unwaith y byddant yn eu swyddi.

Yn gyffredinol, mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i gryfhau capasiti Cymraeg ar draws y sefydliad a chynyddu cyfleoedd i bobl gael gafael ar ein gwasanaethau yn Gymraeg.

Cwynion am y Gymraeg (115)

Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026 ni chawsom unrhyw gwynion am ein cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg.

Os byddwn yn cael cwyn, byddwn yn ei thrin yn unol â'n gweithdrefn gwyno. Mae hyn yn ei gwneud yn glir sut byddwn yn delio â chwynion a ble gall pobl fynd os nad ydynt yn hapus â'r ffordd rydym wedi delio â'u cwyn e.e. Comisiynydd y Gymraeg.

Os bydd pryderon yn cael eu codi, byddwn yn ymateb iddynt yn unol â'n gweithdrefn gwyno. Mae hyn yn esbonio sut yr ymdrinnir â chwynion a lle gall pobl ofyn am ragor o gymorth neu adolygiad os nad ydynt yn fodlon, gan gynnwys drwy Gomisiynydd y Gymraeg.

Rhwng 1 Ebrill 2025 ac 31 Mawrth 2026, dewisodd 51* o bobl ddefnyddio ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ffigur hwn yn sylweddol is na'r hyn a adroddwyd yn 2024–25. Fodd bynnag, mae newidiadau i'n system CRM yn golygu efallai nad yw data dewis iaith wedi'i gasglu'n llawn eto ac nid ydym yn credu bod hyn o reidrwydd yn adlewyrchu gostyngiad yn y galw am wasanaethau eiriolaeth cwynion Cymraeg.

Yn ystod 2026–27, byddwn yn parhau i wella'r gwaith o gofnodi a sicrhau gwybodaeth am ddewis iaith yn ein system CRM. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyder i ni yn ein data ac yn ein helpu i ddeall yn well beth yw'r galw am wasanaethau eiriolaeth cwynion Cymraeg ledled Cymru.



Ein sgiliau Cymraeg (116 a 120)

Rydym yn gofyn i weithwyr ar draws pob rhanbarth ac adran hunanasesu eu sgiliau Cymraeg unwaith y flwyddyn. At ddibenion adrodd, mae pob rhanbarth ac adran yn diweddaru'r wybodaeth hon ar ein system Rheoli Cofnodion Cwsmeriaid (CRM).
Mae gan weithwyr hefyd yr opsiwn o ddiweddaru'r system Cofnodion Electronig Staff (ESR) unrhyw bryd drwy gydol y flwyddyn.

Sgiliau Cymraeg Lefel	Nifer o staff	%
0-No Skills/Dim Sgilliau	41	37%
1-Entry/Mynediad	26	23%
2-Foundation/Sylfaen	7	6%
3-Intermediate/Canolradd	4	4%
4-Higher/Uwch	6	5%
5-Proficiency/Hyfedredd	14	13%
6-Not disclosed/Heb ei ddatgelu	13	12%
Cyfanswm:	**111**	**100%**

O'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol, roedd cyfran y staff a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg wedi gostwng o ychydig o dan hanner (47%) i ychydig dros draean (37%).

Cynyddodd cyfran y staff â sgiliau Cymraeg lefel mynediad a sylfaen o ychydig o dan un rhan o bump (17.8%) i bron i draean (29%). Mae hyn yn awgrymu bod mwy o staff yn datblygu sgiliau a hyder yn y Gymraeg.

Roedd nifer y staff a nododd lefelau uwch o loywi iaith wedi aros yn sefydlog, tra bod cyfran y staff na ddatgelodd eu gallu yn y Gymraeg hefyd wedi gostwng o 15% i 12%, gan roi darlun cliriach o gapasiti Cymraeg y sefydliad.
Yn gyffredinol, mae'r ffigurau hyn yn dangos ein bod yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cryfhau sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu.



Yr hyn rydym am ei wneud yn 2026–2027

Rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed yn ystod 2025–26, ac rydym wedi ymrwymo o hyd i wneud y Gymraeg yn rhan naturiol a gweladwy o bopeth a wnawn.

Fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar bobl, byddwn yn parhau i weithio gydag eraill i gryfhau ein cynnig Cymraeg, gan symud y tu hwnt i gydymffurfio a gwreiddio syniadau Cymraeg yn gyntaf yn ein gweithgareddau a'n penderfyniadau o ddydd i ddydd.

Yn 2026– 2027 rydym am wneud y canlynol:

- **Gwrando** ar staff i ddeall yn well beth yw eu hanghenion dysgu Cymraeg, lefelau hyder a dyheadau datblygu, gan ddefnyddio'r adborth hwn i lunio cymorth a chyfleoedd yn y dyfodol.
- **Ymgorffori** datblygiad y Gymraeg yn ein dull cyfrannu a datblygu newydd, gan helpu staff i nodi a mynd ar drywydd cyfleoedd dysgu Cymraeg sy'n cefnogi eu rôl a'u datblygiad personol.
- **Datblygu** gweithlu amrywiol drwy recriwtio, cadw a chefnogi pobl sydd â sgiliau Cymraeg ar bob lefel hyfedredd.
- **Cryfhau** arweinyddiaeth a goruchwyliaeth o ran y Gymraeg ar lefel Bwrdd, gan feithrin sgiliau a phrofiad o'r Gymraeg yn ein trefniadau llywodraethu a sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn rhan weladwy o'r broses o wneud penderfyniadau strategol.
- **Gwella** ein tudalen fewnrwyd Gymraeg gydag adnoddau, fideos a chanllawiau rhyngweithiol ychwanegol.
- **Ymgysylltu** â chymunedau Cymraeg eu hiaith i wneud yn siŵr bod ein gwasanaethau'n hygyrch ac yn diwallu eu hanghenion.
- **Tynnu** sylw at y defnydd o'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy ryddhau datganiad sefyllfa yn seiliedig ar yr hyn rydym wedi bod yn ei glywed gan bobl ledled Cymru.
- **Cytuno** a llofnodi addewid ar y cyd â Mwy na Geiriau, gan ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Monitro ac adrodd yn y dyfodol

Byddwn yn parhau i fonitro ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg drwy adrodd yn rheolaidd i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Bydd y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd hefyd yn cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd, gan helpu i ddarparu trosolwg strategol, her ac atebolrwydd am ein hymrwymiadau i'r Gymraeg.

Mae rhanbarthau ac adrannau'n chwarae rhan bwysig o ran sicrhau cydymffurfiaeth, gyda goruchwyliaeth strategol yn cael ei darparu gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Chyflawni. Bydd ein proses Asesiad Effaith Integredig yn parhau i fod yn arf allweddol ar gyfer cynnal ansawdd, rhannu arferion da a thynnu sylw at feysydd i'w datblygu ymhellach.

Bob blwyddyn, byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar ein perfformiad yn erbyn Safonau'r Gymraeg a, lle bo hynny'n berthnasol, yn rhannu rhagor o gynnydd a chyflawniadau drwy ein Hadroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol.

Cysylltu â ni

Os hoffech roi adborth i ni ar yr adroddiad hwn, neu os hoffech chi gael yr wybodaeth hon mewn fformat neu iaith arall, cysylltwch â ni ar y manylion isod.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

Llais
Adeiladau'r Goron,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

02920235558
ymholiadau@llaiscymru.org